OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 573

## Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018

**Asesu anghenion ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig**

**6.** Yn rheoliad 5 (asesu anghenion ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Rhagnodir y personau canlynol at ddibenion adran 14F(3) o'r Ddeddf (personau y mae rhaid i asesiad gael ei gyflawni ar eu cais)—

(a) person sy'n dod o fewn adran 14F(3)(a) i (c) o'r Ddeddf;

(b) plentyn perthnasol sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn union cyn i'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig gael ei wneud;

(c) plentyn i'r gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig a grybwyllir yn is-baragraff (ch);

(ch) gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig i blentyn perthnasol;

(d) rhiant i blentyn perthnasol;

(dd) person perthynol i blentyn perthnasol, ar yr amod, cyn i gais gael ei wneud am asesiad, fod trefniadau ar waith ar gyfer cyswllt rhwng y person a'r plentyn perthnasol; ac

(e) plentyn (ac eithrio un sy'n dod o fewn is-baragraffau (a) i (c) uchod) a enwir mewn adroddiad a lunnir o dan adran 14A(8) o'r Ddeddf."; a

(b) hepgorer paragraff (2).